Senedd Cymru
**Cysylltiadau Rhyngwladol**

# Seminar San Steffan – Rhaglen Diwrnod y Senedd

14 Mawrth 2023

Gwahoddwyd y Senedd i gynnal rhaglen undydd fel rhan o Seminar San Steffan, sef rhaglen flynyddol flaenllaw CPA UK ar gyfer Aelodau newydd a rhai a etholwyd yn ddiweddar yn ogystal â chlercod sy'n datblygu.

Croesawodd y Senedd tua 30 o Aelodau a chlercod, yn bennaf o ddeddfwrfeydd bach ac is-genedlaethol o nifer o Ranbarthau'r Gymanwlad. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Caribî, Affrica, Canada, Awstralasia yn ogystal â'n rhanbarth ni, Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir. Cafodd y rhaglen ei chroesawu gan y rhai a oedd yn bresennol yn ogystal ag ysgrifenyddiaeth CPA UK. Roedd y rhaglen yn cynnwys y tair sesiwn ffurfiol ganlynol yn ogystal â thaith o amgylch y Senedd a'r Pierhead:

## 1. Cyflwyniad i'r Senedd

- Datblygiad datganoli

- Sut mae'r Senedd wedi'i strwythuro ac yn cael ei chefnogi

- Blaenoriaethau Presennol a Rhaglen Diwygio'r Senedd

Y Panel:

Y Dirprwy Lywydd, David Rees, AS

Rhun ap Iorwerth AS (Cadeirydd Cangen CPA y Senedd)

Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd.

## 2. Profiad Senedd Ieuencctid Cymru

Cyflwyniad gan Reolwr Senedd Ieuenctid Cymru, Delyth Lewis

## 3. Deddfwriaeth (Datblygiad a Chefnogaeth)

- Mecanweithiau ar gyfer dylanwadu a chael effaith mewn deddfwriaeth

- Technegau a sgiliau a ddefnyddir i gefnogi Aelodau gyda deddfwriaeth

Y Panel:

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Julian Luke - Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth



**Cynhaliwyd sesiynau'r bore yn Siambr Hywel, ac roeddent yn cynnwys cwestiynau a chyfraniadau diddorol gan y ddirprwyaeth**




**Panelwyr yn ystod y Cyflwyniad i'r Senedd**



**Aelodau'r ddirprwyaeth ar ôl sesiwn lwyddiannus ar Ddeddfwriaeth y Senedd**